

Math o Adroddiad	Cofnodion		
Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Wledig Môn/Arloesi Môn		
Lle Venue	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Date	18/07/19	Amser Time	12.30 pm

**Yn bresennol:**

Cynrychiolwyr y Sector Menter:		
Mari Faulkener	(MF)	
Bryn Jones	(BJ)	
Nigel Peacock	(NP)	
Alwyn Williams	(AW)	
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol/Cymunedol		
Peter Davies OBE	(PD)	Menter Gymdeithasol Llangefni
Sian Purcell	(SP)	Medrwn Môn
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Dewi Lloyd	(DLI)	Cyngor Sir Ynys Môn
Staff Menter Môn		
Dafydd Gruffydd	(DG)	Menter Môn
Jackie Lewis	(JL)	Menter Môn
Jane Davies	(JD)	Menter Môn
Sioned Morgan Thomas	(SMT)	Menter Môn
Eraill yn bresennol		
		Cyfieithydd
Endaf Griffiths		Wavehill



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*



Pwynt	Manylion	Gweithredu
1	Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod, yn enwedig yr aelodau newydd. Hoffai ddiolch i Eifion am ei holl waith caled a dymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad.	
2	<b><u>Ymddiheuriadau</u></b> Adrian Roberts Pryderi ap Rhisiart Robin Grove-White Dylan Evans Martin Jardine a Dewi Lloyd am ail ran y cyfarfod.	
3	<b><u>Datganiadau o Ddiddordeb</u></b> ddim yn berthnasol	
4	<b><u>Cofnodion cyfarfod 09/05/19</u></b> Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 09/05/19.	
5	<b><u>Materion yn Codi</u></b>  Gofynnodd Nigel i MJ am ganiatâd i godi'r syniad o lwybr beicio o amgylch Ynys Môn gyda'r gobaith y gallai fod yn rhywbeth i'w gyflwyno ar draws Cymru. Cafodd papur ar brosiect beicio arfaethedig ei gyflwyno i'r cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr (DG). Soniodd DG am brosiect beicio sy'n cael ei wireddu yng Ngwynedd ar hyn o bryd drwy raglen Arloesi Gwynedd Wledig (LEADER). Roedd consensws ymysg yr aelodau ei fod yn syniad y dylid ymchwilio ymhellach iddo ar Ynys Môn. Penderfynwyd ei drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp (Medi).	
6	<b><u>Adborth o Brosiectau</u></b> Rhoddwyd cyflwyniadau ar brosiectau Tyfwch gyda Mi a Gen i Atoch Chi. Maent i'w gweld ar:  <a href="https://www.dropbox.com/s/mi2987use2xqzna/AM%20Presentatio%20n%2018-7-19.pptx?dl=0">https://www.dropbox.com/s/mi2987use2xqzna/AM%20Presentatio%20n%2018-7-19.pptx?dl=0</a>  Rhoddwyd diweddariad cyflym hefyd ynghylch y Prosiect Ciniawau Gwyliau a gymeradwywyd yng nghyfarfod mis Mai ac a oedd i fod i	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
*Charitable Trust*



	<p>gychwyn dros wyliau'r haf. Oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld, mae'r prosiect wedi'i ohirio tan hanner tymor mis Hydref.</p> <p>Rhoddodd JL wybodaeth i bawb am lansio'r Trên Tir yng Nghaergybi rhwng yr 28<sup>ain</sup> a'r 5<sup>ed</sup> Awst a dosbarthwyd taflen gyda'r manylion perthnasol.</p> <p>Yn dilyn diweddariad yn ein cyfarfod blaenorol ar ein hymweliadau ni ag Awstria a Lithwania a'u hymweliadau nhw yma, nodwyd bod cydweithredu rhyngwladol yn cael ei ddatblygu gyda'r nod o'i drafod yn nghyfarfod nesaf yr is-grŵp a'r Grŵp Gweithredu Lleol.</p>	
	<p><b><u>Diwygio Prosiect</u></b></p> <p>Eglurodd SMT pam fod yna gostau ychwanegol y tu hwnt i'r hyn y darparwyd ar ei gyfer yn wreiddiol. Mae gwir gost y cit dronau yn fwy na'r dyfynbris gwreiddiol. Hefyd, mae'r gost o logi Maes Sioe Môn ym Mona am ddiwrnod ychwanegol gan y bydd yna ddau ddiwrnod o wersi hedfan bellach. Rhoddwyd gwybod i MM hefyd fod angen gwarchodaeth yswiriant ychwanegol arnynt.</p> <p><b>Cymeradwywyd £4,740 ychwanegol ar gyfer y prosiect, gan fynd â'r cyfanswm sydd wedi'i gymeradwyo i £21,840.</b></p>	
7	<p><b><u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u></b></p> <p>10<sup>fed</sup> Hydref 2019</p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*

